



Cyflwyniad

Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru (2017) fod 3% o boblogaeth Cymru'n cymryd rhan mewn gweithgareddau marchogaeth yn ystod 2016/17. Mae'n hysbys bod marchogaeth o fudd i ffitrwydd corfforol a lles meddyliol, ac yn cyfrannu at yr economi. Rydym am annog gweithgareddau marchogaeth ar dir a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac rydym wedi amlinellu yma sut y gallwn gyflawni hyn.

Diffiniad

'Mynediad marchogol' yw'r term a ddefnyddiwn ar gyfer bob math o fynediad gyda cheffyl – a ddisgrifir yn y categorïau canlynol:

Unigolion ar gefn cheffyl	Gyrru car a cheffyl unigol	Grwpiau a chlybiau anffurfiol	Digwyddiadau neu weithgareddau masnachol
Marchogaeth	Gyrru car a cheffyl	Clybiau ac ymgynnull yn anffurfiol	Ysgolion masnachol, teithiau dan arweiniad a hirdeithiau, trawsgwlad, cystadleuol

Nodwch: Mae'r datganiad hwn yn eithrio hela ar gefn cheffyl a cheffylau'n pori ar ein tir.

Lle gallwch fynd heb ein caniatâd

Mae gan unigolion ar gefn cheffyl hawl gyfreithiol i ddefnyddio Llwybrau Ceffylau, Cilffyrdd Cyfyngedig, Cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig (BOATs) a rhai Tir Comin. Mae unigolion sy'n gyrru car a cheffyl hawl i fod ar Gilffyrdd Cyfyngedig, BOATs. Gallwch nodi'r llwybrau hyn ar fapiau a gedwir gan yr Awdurdod Lleol.

Rydym hefyd yn rhoi mynediad agored i unigolion ar gefn cheffyl i lawer o Stad Coetir Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu nad oes angen i chi ofyn am ganiatâd i ddefnyddio traciau a ffyrdd coedwig, cyn belled nad ydynt ar gau ar gyfer diogelwch y cyhoedd, neu resymau rheoli neu amgylcheddol. Gallwch ddarganfod lle mae'r ardaloedd hyn trwy gysylltu â'ch rheolwr coedwig lleol.

Pryd y byddwch angen caniatâd gennym

- Mae angen ein caniatâd ar unigolion ar gefn ceffylau a grwpiau a chlybiau anffurfiol, i gael mynediad i lwybrau nad ydynt yn Llwybrau Ceffylau Cyhoeddus, yn Gilffyrdd Cyfyngedig a BOATs ar Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, a rhai o'n stad coetiroedd a thir comin.
- Os ydych yn grŵp neu'n glwb anffurfiol o fwy na 10 marchog, byddwch angen ein caniatâd i ddefnyddio unrhyw ran o'n stad.
- Mae pob gweithgaredd gyrru car a cheffyl angen ein caniatâd i gael mynediad i unrhyw lwybrau ar dir a reolir gan CNC, oni bai ei fod yn Gilffordd Gyfyngedig, BOAT, neu'n rhan o gytundeb ffurfiol presennol (fel Dyfnant a Chrychan).
- Mae angen ein caniatâd ar gyfer digwyddiadau neu weithgareddau masnachol bob amser i ddefnyddio tir rydym yn ei reoli.

Nodwch: Os ydych angen mynediad i ardaloedd wedi'u diogelu gan rwystrau, byddwch angen ein caniatâd i gael allwedd.

Sut rydym yn cefnogi mynediad marchogol

- Byddwn yn dilyn ein [Hegwyddorion Arweiniol](#) ar gyfer cynnwys y gymuned gyda thir rydym yn ei reoli.
- Yn ogystal â hyn, byddwn yn rheoli mynediad ar gyfer gweithgareddau marchogol yn unol â'n [cytundeb gyda Chymdeithas Ceffylau Prydain Cymru](#)
- Rydym yn aml yn caniatáu mynediad marchog caniatool ychwanegol; gall hyn fod yn gymwys ar gyfer bob mynediad i ddarn o dir, llwybr wedi'i nodi neu gall fod yn ganiatâd personol eglur.
- Rydym yn caniatáu digwyddiadau neu weithgareddau masnachol marchogaeth pan ystyriwn y gall y safle gynnal y digwyddiad, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol, ac yn hapus y caiff ei reoli i'r safon gywir o ansawdd a diogelwch.
- Rydym yn ymdrin â nodweddion adeiledig anawdurdodedig yn unol â'n gweithdrefnau trefniadol.

Beth fydd angen i chi ei wneud

- Dilynwch y [Cod Cefn Gwlad](#), y [Cod Defnyddwyr Llwybrau](#) a [Chod Ymddygiad ar gyfer Marchogion a Beicwyr](#) Cymdeithas Ceffylau Prydain
- Parchwch ddefnyddwyr eraill ar ein tir. Gall ymddygiad anghyfrifol neu anghymdeithasol ar lwybrau a rennir arwain at wrthdaro â defnyddwyr eraill a gallai fod yn risg i ddiogelwch y cyhoedd.
- Cadwch at ein holl arwyddion. Mae tir CNC yn aml yn amgylchedd gwaith a gall methu â dilyn arwyddion diogelwch fod yn beryglus i'r marchogion, gyrrwyr a rheolwyr tir.
- Dilynwch ein canllawiau '[Cadwch ef yn Lân](#)' i atal rhywogaethau ymledol rhag lledaenu ac achosi bygythiadau bioddiogelwch. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae llwybrau'n mynd trwy gyrrff dŵr neu ardaloedd mwldyd.

- Ymataliwch rhag adeiladu unrhyw beth oni bai eich bod wedi cael ein caniatâd, gall nodweddion hunan-adeiledig effeithio ar lwybrau mynediad a ffiniau, a gall fod yn beryglus i ddefnyddwyr eraill.
- Gofalwch nad ydych yn achosi erydiad neu'n niweidio llystyfiant, yn enwedig mewn ardaloedd sensitif fel coetir hynafol lled-naturiol, twyni tywod a chynefinoedd cors. Gall defnydd dwys hefyd ddifrodi wynebâu llwybr, sy'n golygu nad ydi pobl eraill yn gallu eu defnyddio.
- Peidiwch â gadael tail ceffyl mewn ardaloedd a ddefnyddir gan aelodau eraill o'r cyhoedd. Gall hyn effeithio ar eu mwynhad; dylai mannau parcio a phyrth, yn enwedig, gael eu cadw'n lân a thaclus.
- Peidiwch ag aflonyddu ar adar neu anifeiliaid. Maent yn arbennig o agored i niwed yn ystod y tymor bridio ac yn y gaeaf.
- Osgowch ddefnyddio llwybrau a neilltuwyd ar gyfer grwpiau defnyddwyr eraill, e.e. cerdded neu lwybrau beicio mynydd

Sut y gallwch ymgeisio am ganiatâd

I ymgeisio am ganiatâd i ddefnyddio tir a reolir gan CNC ar gyfer mynediad marchogol, cysylltwch hefo ein tîm rhanbarthol yn eich ardal. Mae manylion cyswllt ar gael yn y ddogfen yma:

[Manylion cyswllt am ganiatâd i ddefnyddio tir a reolir gan CNC](#)

Pwy i gysylltu â nhw am fwy o wybodaeth

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, gallwch wybod mwy ar y dolenni canlynol:

- Cymdeithas Ceffylau Prydain: www.bhs.org.uk
- Cymdeithas Gyrru Car a Cheffyl Prydain: www.britishdrivingsociety.co.uk
- Cymdeithas Ysgolion Marchogaeth Prydain: www.abrs-info.org